# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Rhagfyr 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

4 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl gwaith mae'r Prif Weinidog wedi ymweld â'r Gogledd ar fusnes y Cynulliad ers iddo gael ei benodi flwyddyn yn ôl. (WAQ56899)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

This information could only be provided at disproportionate cost.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl cyfarfod mae'r Prif Weinidog wedi'i gael gydag elusennau canser yn ystod y 12 mis diwethaf, ac ymhle y cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn. (WAQ56900)

***Rhoddwyd ateb ar 11 Ionawr 2011***

Nid wyf wedi cael cyfarfodydd gydag elusennau canser yn benodol, ond euthum i nifer o gyfarfodydd a oedd yn ymwneud â gwaith ymchwil i ganser a thrin canser.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Andrew Davies (Canol De Cymru)**: Yn dilyn ei hateb i WAQ56849, a wnaiff y Gweinidog egluro'r cynnydd sylweddol yn nifer a chyfran y taliadau a wnaethpwyd yn hwyr hyd yma yn 2010, o'i gymharu â'r cyfnodau cyfatebol yn 2009. (WAQ56887)

***Rhoddwyd ateb ar 11 Ionawr 2011***

Mae hyn wedi digwydd yn sgil yr angen i sefydlu ffyrdd newydd o weithio wrth roi system gaffael newydd ar waith .

**Andrew Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ei hateb i WAQ56849, a wnaiff y Gweinidog egluro'r cynnydd sylweddol yng nghyfanswm gwerth y taliadau a gofnodwyd ar gyfer y misoedd hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon 10/11, o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. (WAQ56888)

***Rhoddwyd ateb ar 11 Ionawr 2011***

Ceir cynnydd yng ngwerth y taliadau misol o ganlyniad i'r ffaith bod anfonebau cyllid y sector cyhoeddus wedi'u cynnwys ar gam yn y ffigurau perfformiad talu diweddarach. Caiff y rhain eu tynnu o'r canlyniadau cyhoeddedig.

**Andrew Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ei hateb i WAQ56832, a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r hawliadau teithio a chynhaliaeth a wnaethpwyd gan staff a Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan roi ffigurau ar gyfer pob un o'r pedair blynedd diwethaf. (WAQ56889)

***Rhoddwyd ateb ar 11 Ionawr 2011***

Ni allwn roi dadansoddiad o hawliadau Teithio a Chynhaliaeth Gweinidogion oherwydd y cesglir y rhain ar wahân. Mae'r ffigurau isod yn dangos cyfanswm gwerth yr hawliadau a wnaed gan staff ar y system Teithio a Chynhaliaeth.

| Hawliadau T a Ch | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|---|
| Staff | 4,330,188.54 | 4,363,007.85 | 4,362,504.67 | 2,356,337.69 |

**Andrew Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ei hateb i WAQ56832, a wnaiff y Gweinidog nodi cyfanswm nifer yr holl hawliadau teithio a chynhaliaeth a wnaethpwyd gan staff a Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan roi ffigurau ar gyfer pob un o’r pedair blynedd diwethaf. (WAQ56890)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

We are unable to provide a breakdown of Travel and Subsistence claims for Ministers as these figures are not captured. The figures below show the total number of claims made by staff through the Travel and Subsistence system.

| T&S Claims | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|---|
| Staff | 122,018 | 122,803 | 122,748 | 67,707 |

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am gostau diogelwch holl swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghymru yn ystod 07/08, 09/10 a 10/11, gan ddarparu dadansoddiad fesul swyddfa. (WAQ56902)

***Rhoddwyd ateb ar 11 Ionawr 2011***

Ar ôl cael eglurhad, dehonglwyd bod y cwestiwn yn ymwneud â chostau swyddogion diogelwch ar Ystâd Weinyddol Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y tair blynedd ariannol llawn diwethaf y mae gwybodaeth ar gael amdanynt.

Mae swyddogion diogelwch mewn iwnifform yn rhwystr pwysig, ond fe'u defnyddir yn unol â'r risg a aseswyd ac maent wedi'u cyfyngu i nifer fach o adeiladu Llywodraeth y Cynulliad. Fe'u defnyddir ar y safleoedd mwyaf, lle y gall fod nifer fawr o ymwelwyr y mae angen eu sganio a lle y credir bod mwy o fygythiad i ddiogelwch.

Mae'r wybodaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2007/08 wedi'i harchifo ar ôl cyflwyno system ariannol newydd a byddai costau ei darparu yn afresymol. Mae'r costau ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf, fesul pob swyddfa sydd â swyddogion diogelwch parhaol yn bresennol fel a ganlyn:

| LLEOLIAD | BLWYDDYN ARIANNOL | |
|---|---|---|
| | 2008/09 | 2009/10 |
| Parc Cathays, Caerdydd | £567,513.71 | £574,511.10 |
| Rhyd y Car, Merthyr Tudful | £361,501.95 | £395,312.17 |
| Rhodfa Padarn, Aberystwyth | DD/G | £143,994.00 |

Mae'r ffigur a ddarparwyd mewn perthynas â swyddfa Aberystwyth yn adlewyrchu'r costau ar gyfer rhan o'r flwyddyn yn unig, sef y cyfnod rhwng agor y swyddfa ym mis Gorffennaf 2009 a Mawrth 2010.

Mae swyddogion diogelwch parhaol yn y swyddfa newydd yng Nghyffordd Llandudno hefyd. Fodd bynnag, ni roddwyd y costau uchod am fod y swyddfa wedi agor yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

Yn ogystal â'r uchod, ceir costau ar lefel yr ystâd gyfan sy'n ymwneud â gwasanaethau cadw allweddi a gwasanaethau ymateb i achosion brys a phatrolio. Byddai'r gost o ddarparu'r costau hyn fesul swyddfa yn afresymol. Fodd bynnag, mae gwariant blynyddol fel a ganlyn:

| LLEOLIAD | BLWYDDYN ARIANNOL | |
|---|---|---|
| | 2008/09 | 2009/10 |
| Yr ystâd gyfan | £42,839.00 | £52,161.00 |

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Beth yw'r gyllideb arfaethedig ar gyfer pob corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad y mae'r Gweinidog yn gyfrifol amdano, gan roi'r ffigur ar gyfer y tair blynedd yn y gyllideb ddrafft. (WAQ56891)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Y gyllideb arfaethedig ar gyfer cost rhedeg Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yw £3,013,000 ar gyfer 2011-12; £2,908,000 ar gyfer 2012-13; a £2,768,000 ar gyfer 2013-14.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Beth yw'r gyllideb arfaethedig ar gyfer pob corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad y mae'r Gweinidog yn gyfrifol amdano, gan roi'r ffigur ar gyfer y tair blynedd yn y gyllideb ddrafft. (WAQ56893)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Nid oes unrhyw gorff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n cael ei ariannu o gyllideb yr Economi a Thrafnidiaeth.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ei ateb i WAQ56837, a wnaiff y Gweinidog esbonio'r anghysondeb rhwng y ffigurau a ddarparwyd a chadarnhau pa ddyddiadau y mae'r ffigurau'n cyfeirio atynt. (WAQ56903)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

Since 2003 and up to 31 October 2010, £19,210,000 has been spent on airfield operations and related costs in support of the Aerospace Park development at St Athan. This expenditure can be attributed specifically to the development of the aerospace park.

An additional £24,776,000 has been spent during the same period on site remediation, land assembly, facilities management, legal and professional fees, highway and utilities design work. These are whole site development costs.

For the sake of completeness, it may be helpful if I explained that £2,676,000 was also spent on the Defence Technical College proposal between 2007 and 31 October 2010.

Overall, therefore, a total of £46.6 million has been spent since 2003 on the St Athan site.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Beth yw'r gyllideb arfaethedig ar gyfer pob corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad y mae'r Gweinidog yn gyfrifol amdano, gan roi'r ffigur ar gyfer y tair blynedd yn y gyllideb ddrafft. (WAQ56894)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

I can now confirm the final budget for 2011-12 and indicative plans for the following two years in respect of the AGSB's for which I am responsible.

| AGSB | 2011-12<br>Final Budget £'000s | 2012-13<br>Indicative Plans Final Budget £'000s | 2012-14<br>Indicative Plans Final Budget £'000s |
|---|---|---|---|
| CCW Programme Costs | 17,602 | 17,543 | 17,151 |
| CCW Admin Costs | 19,652 | 18,719 | 17,911 |
| CCW Coastal Path | 1,500 | 1,500 | 1,500 |
| Environment Agency | 21,071 | 20,070 | 19,108 |
| Flood Defence for EA | 26,000 | 26,889 | 27,754 |

I have also set aside over £10m across the 3 years to assist with any restructuring associated with Natural Environment Framework.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Beth yw'r gyllideb arfaethedig ar gyfer pob corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad y mae'r Gweinidog yn gyfrifol amdano, gan roi'r ffigur ar gyfer y tair blynedd yn y gyllideb ddrafft. (WAQ56895)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyhoeddi.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl cyfarfod mae'r Gweinidog wedi'i gael gydag elusennau canser yn ystod y 12 mis diwethaf, ac ymhle y cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn. (WAQ56901)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Rwyf yn cyfarfod ag amrywiaeth o elusennau canser yn rheolaidd, naill ai yn fy swyddfa neu wrth fynd allan i weld y gwaith y mae'r elusennau pwysig hyn yn ei wneud dros bobl Cymru.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau ar gyfer nifer y cleifion orthopaedig sydd (i) wedi cael eu tynnu oddi ar restr aros orthopedig neu (ii) heb gael eu cynnwys ar restr aros orthopaedig, gan roi dadansoddiad ar gyfer pob un o'r pedair blynedd diwethaf. (WAQ56904)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu gwasanaethau deintyddol mewn cysylltiad â'r contract deintyddol newydd yn ogystal â gallu'r Byrddau Iechyd Lleol i gomisiynu gwasanaethau deintyddol newydd er mwyn i bractisau deintyddol allu ehangu i ddiwallu'r galw o fewn y GIG yng Nghymru. (WAQ56905)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Mae gallu cleifion i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y GIG wedi gwella'n sylweddol ers i'r contract deintyddol newydd gael ei gyflwyno. Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol gyfrifoldeb am ddarparu gofal deintyddol i ddiwallu anghenion lleol a rheoli a bod yn atebol am eu cyllideb ddeintyddol; mae'n rhaid i hyn gael ei gyflawni drwy ddyraniad o gyllideb ddeintyddol gyffredinol gyfyngedig.

Pan ddaw contract i ben, am ba reswm bynnag, nid yw gwerth ariannol y contract yn dychwelyd at Lywodraeth y Cynulliad ond yn hytrach mae'n parhau gyda'r BILl ac yn cael ei ail-fuddsoddi er mwyn darparu gwasanaethau deintyddol eraill. Mae newid yn narpariaeth y gwasanaethau deintyddol, fel ehangu, yn fater i'r BIL benderfynu arno ar y cyd â darparwyr fel rhan o'u proses gynllunio a datblygu gwasanaethau.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Beth yw'r gyllideb arfaethedig ar gyfer pob corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad y mae'r Gweinidog yn gyfrifol amdano, gan roi'r ffigur ar gyfer y tair blynedd yn y gyllideb ddrafft. (WAQ56896)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

I can now confirm that the final budget for 2011-12 and indicative plans for the following two years in respect of the AGSB's for which I am responsible.

| AGSB | 2011-12<br>Final Budget | 2012-13<br>Indicative Plans Final Budget | 2013-14<br>Indicative Plans Final Budget |
|---|---|---|---|
| Arts Council for Wales | 30,612 | 29,976 | 30,145 |
| Amgueddfa Cymru, National Museum Wales | 27,175 | 25,705 | 25,694 |
| National Library Wales | 12,851 | 13,160 | 12,526 |
| Sports Council for Wales | 25,637 | 25,130 | 24,867 |
| Welsh Language Board | 13,908 | 14,058 | 14,158 |
| RCAHMW | 2,293 | 2,207 | 2,121 |

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adolygiad i gyllido Canolfan Organig Cymru. (WAQ56892)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Yn yr adolygiad o gyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad i Ganolfan Organig Cymru (y Ganolfan) nodwyd bod y Ganolfan yn adnodd ac yn wasanaeth pwysig i Lywodraeth y Cynulliad, y mae'r angen amdani yn debygol o barhau yn y dyfodol. O ganlyniad, bydd yn parhau i gael arian a hynny ar lefel ddigonol i sicrhau mynediad at arbenigedd a gwybodaeth y sefydliad. Gwneir trefniadau i gaffael, ar gontract yn ôl y galw, unrhyw wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen ar Lywodraeth y Cynulliad.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Beth yw'r gyllideb arfaethedig ar gyfer pob corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad y mae'r Gweinidog yn gyfrifol amdano, gan roi'r ffigur ar gyfer y tair blynedd yn y gyllideb ddrafft. (WAQ56897)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

I confirm that there are no Assembly Government-sponsored bodies in the Rural Affairs portfolio.

I apologise for the delay in responding to you. This has been due to the fact that the commission requesting a response to your question was inadvertently misplaced in the system. This oversight did not become apparent until Thursday 3 March.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Beth yw'r gyllideb arfaethedig ar gyfer pob corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad y mae'r Gweinidog yn gyfrifol amdano, gan roi'r ffigur ar gyfer y tair blynedd yn y gyllideb ddrafft. (WAQ56898)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Yr unig Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yr wyf i'n gyfrifol amdano yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru. Mae cyllideb arfaethedig y Comisiwn ar gyfer y tair blynedd nesaf fel a ganlyn:
2011-12 £561, 000
2012-13 £539, 000
2013-14 £520, 000